

amser beibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Genesis 12: 1-9



ADNOD
ALLWEDDOL
Hebraid 11: 8

Gwers 1 Teithiau Abraham – Ymddiried yn Nuw

Gall symud tŷ fod yn gyffrous! Cartref newydd, ysgol newydd, ffrindiau newydd ac ardal newydd. Ond mae clirio un tŷ, rhoi trefn ar bopeth, a setlo mewn lle newydd yn newid mawr!

Roedd rhaid i Abram (a gafodd ei alw'n Abraham yn ddiweddarach) symud i fyw hefyd. Fe adawodd ddinas fawr Ur a symud i Haran. Roedd wedi bod yn hapus a chysurus iawn yn Ur gyda'i deulu, ond roedd gan Dduw gynlluniau eraill ar ei gyfer. Un diwrnod, siaradodd Duw ag ef a dechrau egluro'i gynlluniau iddo.

C Ysgrifennwch beth ddywedodd Duw wrth Abram am ei adael (Darllenwch adnod 1)


1

2

3

C Rhowch gylch ar y map i ddangos y wlad y daeth iddi.


Pan fyddwn ni'n symud tŷ, rydyn ni'n gwybod lle fydd ein tŷ newydd, ond yn adnod 1 o'r Darlleniad o'r Beibl fe sylwch chi nad oedd Abram yn gwybod i ble'r oedd yn mynd. Roedd ar Dduw eisiau i Abram ymddiried ynddo wrth iddo ddangos y ffordd i wlad arall iddo.



Mae ymddiried (neu trystio) yn air pwysig iawn yn y Beibl, ond beth yw ei ystyr?

Mae ymddiried yn Nuw yn golygu ei gymryd ar ei air a bod yn ufudd iddo.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir:-



Gwrandawodd Abram ar Dduw ond ni fu'n ufudd iddo
 Gwnaeth Abram yn union fel y mynnai
 Dilynodd Abram orchmynion Duw

3

C Llanwch y bylchau yn y frawddeg isod.

Gwnaeth Duw addewidion arbennig i Abram. Byddai teulu Abram yn tyfu mor fawr nes y byddai'n dod yn g_ _ _ _ _ . Byddai Abram ei hun yn dod yn berson pwysig iawn a byddai ei _ _ _ yn cael ei fawrygu. Yn wir, roedd pethau da'n mynd i ddigwydd i bawb ar y dd_ _ _ _ oherwydd Abram.

Mae'n siwr bod Abram wedi ei chael yn anodd deall yr addewidion hyn oherwydd, ar y pryd, nid oedd ganddo blant o gwbl. Ond er nad oedd yn deall yr addewidion yn iawn, nac yn gwybod i ble'r oedd yn mynd, roedd yn barod i ymddiried yn Nuw.

3

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.


2

1

C Rhowch gylch am oed Abram pan adawodd Haran.

45 65 75 90


C Darllenwch adnod 5 ac ysgrifennwch enwau'r bobl a aeth gydag Abram wrth ochr y lluniau.



2

C Llanwch y bylchau i ddweud beth a ddigwyddodd pan gyrhaeddodd nhw Ganaan (adnodau 6-8).

Dyweddodd Duw:




Adeiladodd Abram

_____ i ddiolch i Dduw.



Roedd Abram yn byw mewn

_____.



3

Mae'n sicr bod Abram wrth ei fodd yn clywed addewidion Duw eto a'i fod wrth ei fodd hefyd o wybod bod Duw wedi'i arwain i'r wlad hon, a fyddai'n eiddo i'w bobl ryw ddydd. Daliodd ati i ymddiried yn Nuw ac i ddibynnu ar yr hyn a ddywedai. Yn yr un ffordd, mae gan Dduw gynllun arbennig ar gyfer bywyd pob un ohonon ni. Fe ddown i wybod beth yw'r cynllun hwnnw wrth i ni glywed Duw yn siarad â ni trwy ei Air, y Beibl.

2

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.

Rhaid i ni fod yn barod i DDUHFUAU _____ i orchmynion Duw i ni, ac i IRMDEDDYI _____ ynddo Ef am bopeth yn ein bywydau.